




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board



Prentis Profiad y Claf (Digidol)  
Pecyn Gwybodaeth 2021

# Beth yw Prentis Digidol Profiad y Claf?

- ✓ Ydych chi eisiau helpu i wella profiad y claf?
- ✓ Ydych chi'n barod am sialens?
- ✓ A fydddech chi wrth eich bodd yn cael bod mewn swydd lle byddwch chi mewn cysylltiad â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr?
- ✓ Hoffech chi ddysgu tra'n ennill arian?
- ✓ Os ydych chi wedi ateb ydw i'r cwestiynau uchod, yna gallai hon fod yn rôl ddelfrydol.

Mae Tîm Profiad y Claf yn cefnogi cleifion trwy ateb eu ymholiadau gofal iechyd, cynnig cyngor a chyfeirio at wasanaethau ac asiantaethau priodol. Mae gwranddo ar ein cleifion yn hanfodol i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ac mae'r tîm yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau i glywed lleisiau ein cleifion. Ein nod yw gwneud ein gwasanaeth mor hygyrch â phosibl, ac o ganlyniad, rydym yn chwilio am ymgeiswyr fydd yn defnyddio syniadau arloesol sy'n cynnwys y datblygiadau technolegol diweddaraf. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu cofleidio holl werthoedd y Bwrdd Iechyd yn angerddol, gan y bydd hyn wrth wraidd popeth a wnânt.



Mae'r Rhaglen Prentis Digidol Profiad y Claf yn gyfle cyffrous a fydd yn eich galluogi i hyfforddi i ddod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm Profiad y Claf trwy ddysgu yn y gwaith. Byddwch yn dechrau trwy gwblhau Prentisiaeth Sylfaenol mewn cefnogaeth Cymwysiadau Digidol (lefel 2), symud ymlaen i Brentisiaeth mewn Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol (lefel 3), cyn ymgymryd â rôl Swyddog Profiad y Claf (Digidol).

# Sut mae'r Rhaglen Digidol Profiad y Claf yn wahanol i raglenni prentisiaeth eraill?

Mae'r Rhaglen Brentisiaeth Profiad y Claf yn cyfuno dwy raglen ddysgu yn un, sy'n dangos ein bod wedi ymrwmo i ddarparu llwybr uniongyrchol i ddod yn Swyddog Profiad y Claf. Mae'n caniatáu ichi ennill ystod eang o brofiadau tra'n gweithio ym maes gofal iechyd. Byddwch yn dysgu tra'ch bod chi'n ennill cyflog.

Amlinelliad o'r Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Brentisiaeth Profiad y Claf				
Lefel 2 Prentisiaeth Sylfaenol mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol	Medi 2021			Isafswm Cyflog Prentisiaeth Cenedlaethol
	Medi 2022			
Lefel 3 Prentisiaeth mewn Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol		Medi 2022		£14,799 y flwyddyn ac yn codi i £15,865 ar ôl 6 mis.
		Ebrill 2024		
Swyddog Profiad y Claf			Ebrill 2024	Band 3 £19,737

\* Mae gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu cymwysterau yn seiliedig ar newidiadau i gymwysterau, gofynion sector neu gyllid.

\* Cyfraddau cyflog yn gywir ym mis Rhagfyr 2020.

## Beth mae'r Rhaglen Brentisiaeth Profiad y Claf yn ei olygu?

- Hyfforddiant cynhwysfawr a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich rôl yn y Bwrdd Iechyd
- Byddwch yn derbyn 'hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith' i ddatblygu eich dysgu
- Bydd gennych fentor o'r coleg
- Byddwch yn mynychu gweithdai lle cewch gyfle i drafod a rhannu syniadau
- Byddwch yn gweithio tuag at gymwysterau galwedigaethol, gan adeiladu'r lefelau wrth i chi ddatblygu
- Byddwch yn cael cyfle i gysgodi aelodau o'r Tîm Profiad y Claf fel rhan o'r broses sefydlu

- Rhoddir mentor gweithle i chi, a fydd yn eich cefnogi ac yn helpu i ddatblygu eich sgiliau trwy gydol eich rhaglen

## Beth fyddwch chi'n ei wneud o fewn eich rôl?

Byddwch yn rhyngweithio, nid yn unig â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ond hefyd amrywiaeth o adrannau yn y Bwrdd Iechyd.

O dan oruchwyliaeth, ar ôl hyfforddiant priodol byddwch yn:

- Creu arolygon cleifion, coladu a dadansoddi'r canlyniadau.
- Defnyddio y feddalwedd a'r cymwysiadau digidol diweddaraf i gefnogi'r tîm PALS.
- Defnyddio meddalwedd a chyfryngau cymdeithasol i greu hysbysebion, gan gynnwys defnyddio codau QR.
- Gweithio'n agos gyda staff i ddarparu cefnogaeth weinyddol barhaus i'r adran.
- Cefnogi unrhyw fentrau sy'n cael eu cynnal gan y tîm.
- Helpu i greu a chynnal adroddiadau a thaenlenni gan ddefnyddio amrywiaeth o becynnau cyfrifiadur gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint.
- Gwneud unrhyw lungopïo, sganio, ffeilio a lamineiddio yn ôl yr angen.
- Coladu straeon cleifion trwy fideo a darparu trawsgrifiadau digidol i'r Bwrdd.
- Sicrhau mai cleifion yw canolbwynt popeth a wnewch.
- Delio ag ymholiadau o ddydd i ddydd yn yr adran, gan gynnwys cyfathrebu ac ymateb i ymholiadau, a chysylltu ag unigolion amrywiol o adrannau eraill, sefydliadau allanol a rhanddeiliaid.
- Cynorthwyo gyda chasglu a dadansoddi data yn ôl y gofyn.
- Cynorthwyo i drefnu digwyddiadau Tîm Profiad y Claf, gan sicrhau bod adnoddau ar waith.

## Trosolwg o'r Rhaglen

### **Prentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 (12 mis)**

Bydd unigolion yn cwblhau'r canlynol:

- Cyflwyniad Prentisiaeth
- Cyflwyniad Corfforaethol
- Cyflwyniad Tîm
- Hyfforddiant System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)
- Hyfforddiant System Adrodd am Ddigwyddiadau Datix
- Adolygiad cynnydd bob 61 diwrnod
- Pasbort Trin â Llaw
- Modiwlau E-ddysgu
- Cymraeg yn y Gweithle (2 awr yr wythnos)
- Sgiliau Astudio
- Cefnogaeth gydag unrhyw anghenion dysgu
- Cefnogaeth Mentor a mynediad at swyddogion lles (gan gynnwys tai, ariannol, llesiant)

Mae'r brentisiaeth yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- Lefel 2 Mewn Cymorth Cymhwyso Digidol
- Cymhwyso Rhif Sgil Hanfodol Lefel 1
- Sgil Hanfodol Cyfathrebu Lefel 1
- Sgil Hanfodol Llythrennedd Digidol Lefel 1

### **Prentisiaeth Lefel 3 mewn Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol (18 mis)**

Bydd unigolion yn cwblhau'r canlynol:

- **Diploma Lefel 3 Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol**
- **Cymhwyso Rhif Sgil Hanfodol Lefel 2**
- **Sgil Hanfodol Cyfathrebu Lefel 2**
- **Sgil Hanfodol Llythrennedd Digidol Lefel 2**

## Beth yw'r gofynion mynediad?

- Rhaid i chi fod yn berson caredig, gofalgar sy'n angerddol am helpu eraill
- Rhaid i chi fod yn 16+ oed ym mis Medi 2021
- Mae'n rhaid eich bod wedi byw yn y DU / AEE am y tair blynedd diwethaf
- Rhaid bod gennych barodrwydd i weithio'n galed
- Llythrennedd a rhifedd o safon dda
- Profiad o becynnau TG (prosesu geiriau, taenlenni, rhaglenni e-bost a chyflwyno)
- Rhaid i chi beidio â bod â chymhwyster Lefel 2 Digidol neu'n uwch
- Rhaid i chi beidio â bod mewn unrhyw addysg ffurfiol a ariennir gan y llywodraeth ar adeg cychwyn y Rhaglen Prentis Profiad y Claf

## Sut mae gwneud cais?

Rydym am recriwtio dau Prentis Profiad y Claf, wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, Sir Benfro ac yn Sir Gaerfyrddin.

Os hoffech wneud cais am gyfle Prentis Gofal Iechyd, ewch i wefan NHS Jobs neu ein gwefan Hywel Dda:

<https://biphdd.gig.cymru/>

Sicrhewch eich bod yn cwrdd â'r dyddiad cau a darllenwch yr hysbyseb yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais. Byddwn yn derbyn ceisiadau o'r 9fed Ebrill a'r dyddiad cau fydd 25 Ebrill 2021.

**Pob Lwc!**

**Cymerwch ofal wrth wneud cais am swydd wag yn yr ardal rydych chi am weithio.**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, gwahoddir y rhai sydd ar y rhestr i fynychu bore asesu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi gwrdd â ni yn ogystal â dod i ddysgu mwy o wybodaeth am y rhaglen a rôl y swydd. Cynhelir hwn ar **27 Mai 2021**.

## Pryd byddaf yn derbyn adborth?

Bydd pawb sy'n mynychu'r bore asesu yn cael gwybod gan y Tîm Profiad y Claf os ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Bydd hwn yn cael ei gynnal ar y **04 Mehefin 2021**. Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch chi'n dechrau'ch cyflogaeth fel Prentis Profiad y Claf gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Medi 2021.

## Pa ddogfennau sydd angen i chi eu gwneud cyn y gallwch chi ddechrau?

Er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu proses recriwtio effeithlon a diogel, gofynnir ichi ddarparu'r ddogfennaeth ganlynol (darllenwch yn ofalus):

- Prawf o'r hawl i weithio yn y DU
- Prawf hunaniaeth
- Darparu tystiolaeth ar gyfer gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Dyddiadau Pwysig

Swydd wag yn fyw: 09 <sup>fed</sup> Ebrill 2021
Dyddiad Cau: 25 <sup>ain</sup> Ebrill 2021
Dyddiad Rhestr Fer: 26 <sup>ain</sup> Ebrill 2021
Diwrnod Dethol: 27 <sup>ain</sup> Mai 2021
Adborth: 04 <sup>ydd</sup> Mehefin 2021
Dyddiad Cau: 22 <sup>ain</sup> Medi 2021

## Pam ddylech chi weithio i ni?

Pam gwneud cais am brentisiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? Dyma rai o'r rhesymau pam:

- Mae prentisiaethau yn gam cyntaf gwych i yrfa yn y GIG
- Mae prentisiaethau yn cyfuno hyfforddiant ymarferol â chyflogaeth â thâl ('ennill wrth ddysgu')
- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â staff profiadol i'ch cefnogi a helpu i ennill y sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnoch
- Rydych chi'n ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, heb unrhyw ffioedd dysgu
- Rydym yn cynnig 27 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, ynghyd â Gwyliau Cyhoeddus ychwanegol
- Mae hawl i wyliau yn cynyddu gyda'r gwasanaeth
- Mae'n brofiad gwych, yn gweithio fel rhan o dîm, yn gwneud gwahaniaeth go iawn

**Buddsoddwch yn eich dyfodol. Dewch i ymuno â theulu Hywel Dda.  
Nid oes lle gwell i #HyfforddiGweithioByw**

## Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gwestiwn?

Os hoffech wybod mwy am y rôl, cysylltwch ag Emma Haycocks yn:

HDD.PALSTeam@wales.nhs.uk

Ar gyfer ymholiadau cymwysterau neu brentisiaethau, cysylltwch â'r Academi Brentisiaethau yn:

[apprenticeship.academy@wales.nhs.uk](mailto:apprenticeship.academy@wales.nhs.uk) neu ffonio 07971480755